# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 14 Rhagfyr 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13075

# 111

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 14.21

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.15

**Atebwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionnydd): Pa gamau mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r prinder gwrthfiotigau dros gyfnod y Nadolig?

**Atebwyd gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**

Joel James (Canol De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynnig i sicrhau safonau cyflogaeth mwy trwyadl yng ngwasanaethau tân ac achub Cymru yn sgil yr honiadau yn erbyn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.30

Gwnaeth Natasha Asghar ddatganiad am - Dechrau gŵyl Hanukkah (18 Rhagfyr).

Gwnaeth Janet Finch-Saunders ddatganiad am - #YmgyrchPickstock - ymgyrch ymwybyddiaeth troseddau cyllyll yn Aberconwy.

## 5 Datganiad gan Peter Fox - Cyflwyno Bil Arfaethedig Aelod: Bil Bwyd (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 15.35

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol - Trais ar sail rhywedd: Anghenion menywod mudol

Dechreuodd yr eitem am 16.26

**NDM8166** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder ar drais ar sail rhywedd - Anghenion menywod mudol, a osodwyd ar 26 Hydref 2022.

Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Rhagfyr 2022

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl Plaid Cymru - Tlodi plant

Dechreuodd yr eitem am 17.05

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8165** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn gresynu at y ffaith bod gan Gymru'r cyfraddau tlodi plant uchaf yn y DU.

2. Yn cydnabod bod yr argyfwng costau byw presennol yn gwaethygu tueddiadau diweddar sydd wedi gweld cyfraddau tlodi plant yn cynyddu yng Nghymru, er gwaethaf addewid Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant erbyn 2020.

3. Yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn meddu ar strategaeth i fynd i'r afael â thlodi plant ar hyn o bryd, er gwaethaf y ffaith bod Comisiynydd Plant Cymru a grwpiau gweithredu tlodi plant eraill wedi galw dro ar ôl thro am ffocws a gweithredu penodol a brys yn y maes hwn.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth tlodi plant, wedi'i ategu gan dargedau statudol, a hynny ar frys.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 8 | 0 | 38 | 46 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi buddsoddiad sylweddol Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant ac y bydd Llywodraeth Cymru, yn unol â'i Strategaeth Tlodi Plant gyfredol, yn cyhoeddi ei hadroddiad diweddaru y mis hwn ac yn cyhoeddi strategaeth ddiwygiedig yn 2023.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 22 | 46 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi ei dderbyn, cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM8165** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi buddsoddiad sylweddol Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant ac y bydd Llywodraeth Cymru, yn unol â'i Strategaeth Tlodi Plant gyfredol, yn cyhoeddi ei hadroddiad diweddaru y mis hwn ac yn cyhoeddi strategaeth ddiwygiedig yn 2023.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 8 | 14 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 8 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.58

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.01

**NDM8148** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Gwasanaethau bancio yn Gymraeg

Daeth y cyfarfod i ben am 18.17

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 10 Ionawr 2023**